# Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Iau 28ain Gorffennaf 2016

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| T. Bowen | J.M. Charles | A. Davies | T. Davies |
| J.K. Howell | H.I. Jones | P.E.M. Jones | D.J.R. Llewellyn |
| J. Thomas | M.K. Thomas | J.S. Williams | |

**Hefyd yn bresennol:**
S.E. Watts, Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
J Power – Uwch-swyddog Trwyddedu;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 11.00 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU A MATERION ERAILL

- Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Edwards ac I .J. Jackson;
- Safodd yr Aelodau mewn tawelwch yn arwydd o deyrnged er cof am y Cynghorydd Tom Theophilus, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, a oedd wedi marw'n ddiweddar.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DYLAN WYN EVANS

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Dylan Wyn Evans, 47 Trewern, Saron, Llandysul am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Evans ynghylch ei gais.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod y cais yn cael ei ganiatáu a bod Mr Evans yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Dylan Wyn Evans am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 4. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DAVID WILLIAM SQUIRE

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Mr Squire wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod na fyddai'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ar y diwrnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried cais Mr David William Squire am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

**5. TRWYDDED AR GYFER CERBYD HACNAI**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Andrew Paul Roberts, 18 Dyffryn y Swistir, Llanelli am drwyddedu BMW 330D â'r rhif cofrestru BX11 KPK yn Gerbyd Hacnai gyda'r Awdurdod. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Roberts, a oedd yng nghwmni ei gyfreithiwr, ynghylch ei gais.

Argymhellodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd fod cais Mr Roberts yn cael ei wrthod.

Yna bu i'r Pwyllgor

**BENDERFYNU cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, wrthod cais Mr Andrew Paul Roberts, 18 Dyffryn y Swistir, Llanelli, am drwyddedu BMW 330D â'r rhif cofrestru BX11 KPK yn Gerbyd Hacnai gyda'r Awdurdod.**

Y rhesymau

- Mae gan y Cyngor bolisi clir na fydd yn rhoi trwydded i gerbydau sy'n hŷn na 5 oed;
- Ystyriodd y Pwyllgor yn ofalus a ddylai wneud yn groes i'r polisi hwnnw yn yr achos hwn a daeth i'r casgliad na ddylai wneud hynny;
- Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd yr esboniad a roddwyd am beidio â chyflwyno'r cais cyn pen y cyfnod penodedig yn ddigon i gyfiawnhau gwneud yn groes i bolisi'r Cyngor yn yr achos hwn.

**6. COFNODION**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 22ain Mehefin 2016 yn gofnod cywir yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd T. Davies yn y rhestr o'r rhai oedd yn bresennol.**

______________________________ ______________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**

**1.1.**